# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4258

# 61(v4)

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Cwestiynau Brys

**Cwestiwn Brys 1**

Dechreuodd yr eitem am 14.19

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y gorwariant o £150 miliwn gan fyrddau iechyd lleol eleni? EAQ(5)0153(HWS)**W**

**Cwestiwn Brys 2**

Dechreuodd yr eitem am 14.36

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:**

**Vikki Howells (Cwm Cynon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i'r nifer fawr o danau glaswellt dros y penwythnos? EAQ(5)0126(CC)

## Pwynt o Drefn

Dechreuodd yr eitem am 14.35

Cododd Angela Burns Bwynt o Drefn yn awgrymu fod Joyce Watson wedi camddyfynnu'n fwriadol yr hyn a ddywedodd yn ei chyfraniad yn ystod y Cwestiwn Brys cyntaf a'i bod yn awyddus i gofnodi hynny. Diolchodd y Llywydd i'r Aelod am ei hesboniad, gan ddatgan y bydd y Cofnod yn rhoi ei ddyfarniad ar y mater pan gaiff ei gyhoeddi. Gofynnodd y Llywydd i bob Aelod wrando'n astud ar yr hyn sydd gan Aelodau eraill i'w ddweud, a dehongli'r hyn a ddywedir yn ofalus.

## Datganiad y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 14.44

Cyhoeddodd y Llywydd y caiff Paul Davies ofyn i'r Cynulliad gytuno i gyflwyno Bil Aelod ar Fil Awtistiaeth (Cymru).

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.45

## 3 Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017

Dechreuodd yr eitem am 15.01

**NDM6272** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017

Dechreuodd yr eitem am 15.04

**NDM6271** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pedolwyr (Cofrestru)

Dechreuodd yr eitem am 15.07

**NDM6269** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno mai Senedd y DU ddylai ystyried y darpariaethau yn y Bil Pedolwyr (Cofrestru), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig i atal dros dro Reol Sefydlog 11.16 i ganiatáu i'r eitem nesaf o fusnes a Dadl Fer ddydd Mercher gael eu trafod

Dechreuodd yr eitem am 15.14

**NNDM6279** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu:

a) i NDM6267, a gyflwynwyd gan David Rees, gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 28 Mawrth 2017; a

b) i Ddadl Fer NDM6266, a gyflwynwyd gan Dawn Bowden, gael ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 29 Mawrth 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i Gymru wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd (Ailddechrau o 22 Mawrth)

Dechreuodd yr eitem am 15.14

**NDM6267** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei Ymchwiliad i'r goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ionawr 2017.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2017.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl: Yr Adolygiad o Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol - Tynnwyd yn ôl

## 8 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

### Datganiad y Llywydd

Am 15.47, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 10 munud. Cafodd y gloch ei chanu 5 munud cyn ailgynnull ar gyfer dadl Cyfnod 3 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

## 9 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.57

Cafodd y gwelliannau eu gwaredu yn nhrefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 fel y cytunwyd gan y Cynulliad ar 21 Mawrth 2017.

**Tynnwyd gwelliant 35 yn ôl.**

**Ni chynigiwyd gwelliant 37.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 32:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 32.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 36:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 36**

**Derbyniwyd gwelliant 29 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 38:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 9 | 29 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 38.**

**Ni chynigiwyd gwelliant 39.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 33:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 33.**

**Ni chynigiwyd gwelliant 40.**

**Tynnwyd gwelliant 30 yn ôl.**

**Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Ni chynigiwyd gwelliant 41.

Ni chynigiwyd gwelliant 42.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 25 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 26 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 27 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

**Derbyniwyd gwelliant 28 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 31:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 8 | 10 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 31.**

**Tynnwyd gwelliant 34 yn ôl.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 17.21

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Mawrth 2017**